**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU A MENTER**
**26 MEDI 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Mercher, 26 Medi 2018.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd Ian Dunbar (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Sian Braun, David Cox, Jean Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood, George Hardcastle, Ted Palmer, Mike Reece, Paul Shotton a David Wisinger

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Patrick Heesom (yn lle Ray Hughes)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Bernie Attridge, yr Aelod Cabinet Tai

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Helen Brown a Christine Jones, yn bresennol fel arsylwyr

**CYFRANWYR:** Prif Swyddog (Tai ac Asedau), Rheolwr Cefnogi Cwsmeriaid a Rheolwr Gwaith Cyfalaf

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Cyn dechrau'r cyfarfod, cytunwyd y byddai'r Hwylusydd yn ysgrifennu at y Cynghorydd Bernie Attridge i fynegi dymuniadau gorau gan y Pwyllgor am wellhad buan yn dilyn salwch.

**21. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Dim.

**22. COFNODION**

(i) Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2018.

Materion yn Codi

Cofnod rhif 11: Mewn ymateb i gais gan y Cynghorydd George Hardcastle, dywedodd yr Hwylusydd y byddai adroddiad diweddaru ar ôl-ddyledion rhent yn cael ei roi gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor, i'w gynnal 7 Tachwedd 2018.

(ii) Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 17 Gorffennaf 2018.

Cywirdeb
Tudalen 9: i ddiwygio teitl y cofnodion

Materion yn Codi

Rhoddodd y Cynghorydd Paul Shotton sylw ar lwyddiant y Rhaglen Llwglyd Dros y Gwyliau.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newid uchod, cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 23. UN LLWYBR MYNEDIAD AT DAI

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) adroddiad i ystyried y Polisi Dyraniadau ar gyfer tai cymdeithasol. Gwahoddodd y Rheolwr Cefnogi Cwsmeriaid i gyflwyno'r adroddiad.

Rhoddodd y Rheolwr Cefnogi Cwsmeriaid wybodaeth gefndir a rhoddodd wybod bod adolygiad o'r polisi SARTH wedi'i wneud yn 2017 yn dilyn blwyddyn gyntaf ei weithrediad. Nododd yr adolygiad fod angen diweddaru'r polisi i sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Tai (Cymru) 2014. Fe wnaeth adolygiad o faterion a godwyd yn y panel gweithredol a'r grŵp llywio sefydlu nad oedd angen unrhyw newidiadau mawr i unrhyw un o egwyddorion allweddol y polisi. Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid wybod fod y gofyniad am bolisi wedi'i ddiweddaru'n rhoi cyfle i ddatblygu dogfen a oedd yn haws i'w darllen a'i deall. Mae'r polisi diwygiedig (yn amgaeedig yn atodiad un), yn nodi ymrwymiad allweddol partneriaid at ddull rhanbarthol cyffredin tuag at ddyraniadau tai cymdeithasol.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid ar y prif ystyriaethau, fel y manylwyd yn yr adroddiad, ynghylch cydweithrediad rhanbarthol, galw am dai cymdeithasol, archwilio a thai arbenigol.

Rhoddodd y Cynghorydd Ian Dunbar sylw ar yr angen am ddatrysiadau tai addas i fodloni anghenion arbenigol a gofynnodd a oedd tai addas wedi'u darparu o stoc dai hen neu newydd. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid fod atebion wedi'u rhoi o gymysgedd o hen dai a rhai newydd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Shotton at y gwaith cydweithredol a wnaed gyda Chyngor Sir Ddinbych, a gofynnodd a oedd rhagor o gyfleoedd i ddatblygu gwaith ar y gofrestr brysbennu a thai gydag awdurdodau lleol eraill. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid fod yr Awdurdod hefyd wedi cael incwm gan landlordiaid partner eraill a byddent yn olrhain unrhyw gyfleoedd i ehangu'r bartneriaeth i ragor o Gynghorau.

Holodd y Cynghorydd Rosetta Dolphin a oedd gwybodaeth wedi'i rhannu rhwng meysydd gwasanaeth yn yr Awdurdod, a nododd y Gwasanaethau Tai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol fel esiampl, a sefyllfa pe bai eiddo'n dod yn wag oherwydd bod tenant wedi symud i gartref gofal. Rhoddodd y Prif Swyddog sicrwydd fod gwybodaeth yn cael ei rhannu rhwng adrannau Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod.

Mewn ymateb i bryder a godwyd gan y Cynghorydd George Hardcastle ynghylch dyrannu tai cymdeithasol, eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid fod Sir y Fflint a Sir Ddinbych yn gweithredu dwy gofrestr tai ar

wahân.  Rhoddodd wybod fod Sir y Fflint wedi bod yn rheoli'r gofrestr brysbennu a thai i Sir Ddinbych ers Ebrill 2017, a chyfeiriodd at y buddion niferus o gael Sir y Fflint yn cynnal y ddwy Gofrestr.

Cododd y Cynghorydd Patrick Heesom bryderon am y gwasanaeth brysbennu a chyfeiriodd at y cynnydd yn nifer y ceisiadau yn 2017/18. Rhoddodd sylw am nifer y ceisiadau blynyddol a holodd pa gefnogaeth a roddwyd i'r ymgeiswyr hynny nad oedd yn symud ymlaen i'r gofrestr tai.  Rhoddodd sylw hefyd ar atebolrwydd democrataidd y Cyngor wrth ddarparu tai, a dywedodd nad oedd yn teimlo fod hyn wedi'i ysgrifennu yng nghylch gorchwyl y Polisi SARTH ac na chyfeiriwyd yn ddigonol ychwaith at rôl aelodau etholedig.  Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid sicrwydd fod pob ymgeisydd a oedd yn dweud eu bod nhw angen cymorth tai yn cael cefnogaeth, gwybodaeth ac yn cael eu cyfeirio at wasanaethau/asiantaethau eraill lle bo'n briodol.

Ceisiodd y Cynghorydd Heesom sicrwydd na fyddai'r gwasanaeth Tai'n cael ei gyflwyno fel ystyriaeth o ran model darparu amgen.  Cadarnhaodd y Prif Swyddog nad oedd unrhyw gynnig o'r fath yn cael ystyriaeth.

Cyfeiriodd y Cynghorydd David Wisinger at yr angen am dai arbenigol a nifer yr ymgeiswyr mewn angen dybryd yn Sir y Fflint.  Rhoddodd sylw ar yr angen i weithio gyda datblygwyr eiddo a'r adran Gynllunio i gynyddu cyflenwad y stoc i fodloni anghenion aelwydydd gydag anabledd, neu a oedd angen eiddo mwy.  Rhoddodd y Prif Swyddog wybod nad oedd yn rhaid i ddatblygwyr ddarparu eiddo wedi'u haddasu, fodd bynnag, fe wnaeth yr Awdurdod ddylanwadu ar fath a nifer yr unedau tai cymdeithasol drwy ei drafodaethau gyda datblygwyr ac yn seiliedig ar angen tai mewn ardal benodol; yn ogystal, gweithredwyd rheolyddion ymhellach drwy'r system gynllunio.  Rhoddodd y Rheolwr Cefnogi Cwsmeriaid wybod y byddai adroddiad llawn ar dai arbenigol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ddechrau 2019.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn parhau i gefnogi'r rheolaeth o'r polisi Un Llwybr Mynediad at Dai (SARTH) yn Sir y Fflint.

## 24. RHAGLEN GYFALAF SAFONAU ANSAWDD TAI CYMRU – Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AR YR ADOLYGIAD CYFLENWI

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) adroddiad i roi diweddariad ar gynnydd SATC a ddarparwyd gan y Cyngor drwy ei Raglen Buddsoddi Cyfalaf. Eglurodd fod Rhaglen Waith SATC wedi cyrraedd ei charreg filltir hanner ffordd, ac yn symud i'r tair blynedd olaf o ddarpariaeth.  Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar beth a ddarparwyd hyd yn hyn a beth oedd ar ôl i'w gwblhau cyn dyddiad cau 2020.

Adroddodd y Prif Swyddog ar y prif ystyriaethau, fel y manylwyd yn yr adroddiad ar Raglen SATC.  Rhoddodd wybod fod tîm prosiect SATC bron â chwblhau'r rhaglen Gwaith Mewnol (ceginau ac ystafelloedd ymolchi) a bod yr eiddo a oedd yn weddill naill ai'n 'wrthodiadau gan denantiaid' neu'n 'ddim mynediad', a ddosbarthwyd fel 'methiannau derbyniol' gan Lywodraeth Cymru o ran cyflawni SATC.  Roedd tîm prosiect SATC hefyd wedi caffael pob prif

Gontract SATC wrth symud i Flwyddyn 4 (2018/19) o'r Rhaglen Gyfalaf, ac o flaen y targed gyda nifer y cydrannau a osodwyd, ac yn bwriadu gweithredu'r Ateb Cymhorthydd Digidol Personol (PDA) yn Chwarter 4 o'r flwyddyn ariannol hon. Aeth y Prif Swyddog ymlaen i ddweud fod tîm prosiect SATC wedi darparu sawl contract, yn amrywio o waith uwchraddio mewnol i waith ailwampio allanol mawr, a chynlluniau amgylcheddol. Roedd y Cyngor wedi buddsoddi tua £60m hyd yn hyn o fewn ei stoc dai, ac ar hyn o bryd o flaen y targed wrth fodloni dyddiad cau SATC o 2020.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog at Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) a rhoddodd wybodaeth gefndir, fel y manylwyd yn yr adroddiad. Dywedodd fod yr archwiliad wedi cwmpasu nifer o feysydd yn ymwneud â defnyddwyr gwasanaeth yr Awdurdod, ac ar ôl cynnal arolygon, ystyried adborth defnyddwyr a chymedroli eu canfyddiadau, daeth SATC i'r casgliad "at ei gilydd, roedd y Cyngor yn gwneud cynnydd da tuag at gyflawni SATC ac roedd y rhan fwyaf o denantiaid y Cyngor yn fodlon gydag ansawdd y gwasanaeth a'u cartrefi".

Llongyfarchwyd y Prif Swyddog a'i dîm gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Paul Shotton ar eu llwyddiannau gyda SATC hyd yn hyn ac am roi adroddiad da.

Rhoddodd y Cynghorydd Patrick Heesom sylw ar yr angen i sicrhau bod contractwyr lleol a llafur yn cael eu defnyddio yn rhaglen waith SATC. Rhoddodd y Rheolwr Gwaith Cyfalaf wybod fod contractwyr a llafur lleol ynghlwm wrth bob tŷ newydd a adeiladir a dywedodd fod angen bodloni trothwyon wrth gontractio gwaith ar gyfer rhaglen SATC. Eglurodd am bob £1m o wariant, roedd yr Awdurdod wedi gorfod sicrhau bod nifer benodol o gyfleoedd swyddi lleol a phrentisiaethau wedi'u rhoi, a dywedodd y rhagorwyd ar y targed hyd yn hyn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Rosetta Dolphin at eiddo nad oedd wedi'u huwchraddio oherwydd 'gwrthodiadau gan denantiaid' neu'n 'ddim mynediad', a holodd a oedd cyflwr yr eiddo wedi'u gwirio i sicrhau y cydymffurfiwyd â safonau tai. Eglurodd y Rheolwr Gwaith Cyfalaf y byddai arolygiad cyflwr yn cael ei wneud pan fo'n briodol.

Awgrymodd y Prif Swyddog y dylai'r Pwyllgor gael adroddiad diweddaru blynyddol ar ddarparu Rhaglen Gyfalaf SATC, i gynnwys gwybodaeth am ddefnyddio llafur lleol a nifer y prentisiaid a'r rhai sy'n gadael ysgol.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r cynnydd a wnaed i ddarparu Rhaglen Buddsoddi Cyfalaf Tai.

## 25. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Wrth gyflwyno'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i'w hystyried, cyfeiriodd yr Hwylusydd at yr eitemau i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor 7 Tachwedd, a dywedodd y cytunwyd i ohirio Adroddiad Monitro Cynllun Cyngor 2018/19 Chwarter 1 a 2 ar gyfer cyfarfod 19 Rhagfyr 2018. Cytunwyd hefyd y byddai adroddiad Ôl-ddyledion Rhent yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod 7 Tachwedd.

Rhoddodd yr Hwylusydd wybod y byddai gweithdy’n cael ei drefnu yn ystod Hydref i aelodau o’r Pwyllgor ystyried cynigion y gyllideb, a dywedodd y byddai manylion yn cael eu cadarnhau i Aelodau dros e-bost.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol, fel y'i diwygiwyd, yn cael ei chymeradwyo; a

(b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio’r Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 26. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelodau o’r cyhoedd na’r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 10.52 am)

..................................................

**Cadeirydd**